

Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch 2019

Tlws yr Ifanc

Diolch yn fawr iawn am y gwahoddiad i fferniadu cystadleuaeth Tlws yr Ifanc i rai dan 21ain oed yn Eisteddfod Penrhyn-coch eleni. Y gofynion oedd cyfansoddi darn lleisiol neu offerynnol a daeth 9 o gyfansoddiadau i law a braf yw dweud bod y safon yn uchel a'r darnau yn dangos amrywiaeth, dyfeisgarwch cerddorol a thalent at gyfansoddi.

Carol a gawsom gan 'Non', a honno i leisiau deulais a chyfeiliant piano, a'r gerddoriaeth yn dal naws y geiriau i'r dim. Roedd yma frawddeu cerddorol hyfryd a'r harmoni yn gorwedd yn esmwyth drwyddo draw. Dyma garol a threfniant addas ar gyfer ysgolion a chorau –un sy'n barod i'w chanu fel ag y mae.

Mae ail ymgais 'Non', sef darn offerynnol ysgafn a hwyliog yn dwyn y teitl 'Capriccio', yn ddarn ar gyfer dwy fflwiwt a phiano. Dyma ddarn byrlymus yn llawn rhediadau a graddfeydd. Hoffais y strwythr cwestiwn ac ateb rhwng y ddwy fflwiwt a'r modd yr oedd y piano'n gweu ei ffordd rhyngddynt. Mae yma ddatblygu syniadau da, gyda'r motif cerddorol cychwynnol ar y fflwiwt yn cael ei ddatblygu drwy gydol y darn.

Gan 'Llio' cawsom gainc gerdd dant – cainc apelgar o'r gwrandawriad cyntaf ac mae yma ymgais dda iawn i saernïo alaw gan ddefnyddio patrwm rhythmig a brawddegau cerddorol sy'n cyfateb. Mae llawer o ddiddordeb cerddorol yma a'r harmoni yn symud drwy gyweiriau annisgwyl yn hynod o llyfn. Mae peth aneglurder ar y sgôr cerddorol – mae yma ymgais at osodiad ar yr alaw ond nid yw'n orffenedig. Ond dyma gainc sy'n llawn gwreiddioldeb, a chainc addas iawn i ganu arni.

Mae 'Titanic', gan Jennings, yn ddarn i biano unawdol. Cawn yma ddarn syml ond effeithiol, sy'n amlygu syniadau ond gan mai darn byr ydyw, mae'n anodd llwyr werthfawrogi'r syniadau gan nad oes cyfle yma i'w datblygu. Er hyn, mae'r defnydd o ailadrodd yn creu awyrgylch finimalistig bron a hoffwn yn fawr fod wedi cael clywed mwy.

Cân boblogaidd, mewn arddull pop, oedd ymgais 'Glain'. Braf oedd clywed recordiad o'r gân yn ogystal â derbyn sgôr. Mae i'r gân adeiladwaith celfydd, yn arbennig felly o ran yr offeryniaeth, gydag un haen o gerddoriaeth yn cael ei ychwanegu fesul tipyn gan y drymiau, y gitar a'r gitar fas, piano a ffidil cyn i'r lleisiau ymuno. Mae strwythr y gân yn eithaf rhydd ond mae yma nifer o elfennau cofiadwy. Efallai y gellid bod wedi datblygu rhagor ar ran y 'gytgan'

yn y canol, ond dyma gân lwyddiannus. Canmoliaeth hefyd i'r sgôr hynod o broffesiynol a manwl.

Mae 'Barti Ddu' gan Morleidr yn ddarn offerynnol ar gyfer clarinet, bas dwbwl a thelyn – cyfuniad diddorol a gwahanol, ond cyfuniad sy'n gweithio. Mae yma ôl meddwl a'r rhagarweiniad yn arwain at alaw gofiadwy ac amrywiadau arni wedyn. Defnyddia Morleidr yr offerynnau i'r eithaf ac mae'r seiniau pizzicato ar y ffidil a'r harmonics ar y delyn, ynghyd â chyferbyniad traw ac ystod yr offerynnau yn cyfrannu i greu digonedd o amrywiaeth. Eto, mi fyddai'n braf datblygu'r darn yma ymhellach ac efallai arbrofi ymhellach gyda harmoni a rhythm, gan fod yma addewid yn bendant.

Pedwarawd llinynnol a gawn gan 'Simon 1', o dan y teitl 'Intermezzo in A'. Dyma gyfansoddiad sy'n dangos dealltwriaeth o ysgrifennu ar gyfer y cyfuniad arbennig hwn – mae pob un offeryn â'i rôl o ran harmoni a rhythm ac eto'r cyfan yn dod ynghyd yn llwyddiannus. Mae yma strwythr gadarn a syniadau cerddorol yn gorlifo o un erwydd i'r llall a'r alaw yn llawn siâp ac apêl. Ond yma eto, hoffwn fod wedi clywed rhagor. Mae yma gyfansoddi aeddfed – mae angen datblygu syniadau ymhellach rwan a mentro ysgrifennu darn fymryn yn hirach.

Mae dau gyfansoddiad ar ôl, ac i mi, dyma ddau gyfansoddiad sy'n haeddu canmoliaeth uchel iawn.

Mae 'O Sacrum Convivium' gan Simon 2, yn osodiad cerddorol lleisiol o eiriau Lladin enwog sydd yn arfer cael eu defnyddio fel rhan o sacrament bendithiol y cymun eglwysig. Darn i bedwar llais, SATB, sydd yma, gyda chyfeiliant organ. Mae arddull y gerddoriaeth yn eglwysig a'r naws yn hynafol ac eto'n arddangos gwedd gyfoes. Mae yma ddeallusrwydd pendant o gyfansoddi ar gyfer yr organ ac ar gyfer y cyfuniad arbennig yma o leisiau – y cyfan yn plethu'n hynod o gelfydd a'r brif alaw yn symud o lais i lais fel thema bendant, sy'n sylfaen i'r darn. Dyma gyfansoddiad disgybledig ac aeddfed, sy'n ein swyno o'r cychwyn cyntaf.

Pumawd offerynnol yw 'Amrywiadau'r Garth' gan Bwrlwm, gyda chyfuniad diddorol eto o offerynnau – ffliwt, clarinet, cello, piano a thelyn. Dyma ddarn mewn 4 rhan – thema ac amrywiadau ond o fewn y strwythr pendant mae teimlad o ryddid yn rhythmig ac yn alawol. Mae yma ddiddordeb o'r cychwyn a digonedd o farciau deinameg, sy'n dod a'r cyfan yn fyw. Mae i pob amrywiad ei naws a'i gymeriad ei hun, yr offerynnau mewn gwrthbwynt i'w gilydd gyda rhythm annibynol y cello yn ddiddordeb ychwanegol. Byddai posib arbrofi ymhellach efallai gyda rhannau y piano a'r delyn – tybed oes modd cael rhagor o amrywiaeth rhwng y rhannau, ac efallai symud yn uwch neu'n is o ran traw yr octaves ambell waith? Ond wedi dweud hyn, dyma ddarn

sy'n dangos medrusrwydd a syniadaeth gerddorol. Mae'r cyfan yn cyrraedd uchafbwynt yn y rhan olaf, lle mae sylw i fanion rhythmig, a phob offeryn yn ateb ei gilydd yn gelfydd a chlyfar a'r rhythmiau gwahanol yn apelio'n syth i'r glust ac yn diddanu'r gwrandawr. Mae yna lawer yn digwydd yn y cyfansoddiad hwn ond mae'n gyfanwaith a hwnnw'n llawn bwrlwm, sy'n llwyr haeddu Tlws yr Ifanc yn Eisteddfod Penrhyn-coch eleni. Llongyfarchiadau ar gyfansoddiad diddorol tu hwnt, a fydd yn sicr yn rhoi boddhad i berfformwyr y gwaith ac i'r gynulleidfa sy'n gwrandao.

'Bwrlwm' felly yw enillydd Tlws yr Ifanc.

Diolch yn fawr,

Gwenan Gibbard
21 Mawrth 2019